## Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parch. Eifion G. Jones, cyn-weinidog ar eglwysi Llannefydd, Cefn Berain a Ffynhonnau am gyfnod yn y 70au. Diolchwn i Dduw am ei fywyd a'i wasanaeth helaeth, ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu i gyd.

Cofiwn yn arbennig heddiw am Elwyn Roberts (Llansannan) sydd heb fod yn dda ac sy'n cael gofal yn Ysbyty Llandudno. Gweddïwn ei fod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn. Cofiwn hefyd am Nansi Jones (Henllan) sy'n disgwyl mynd i ysbyty yn Lerpwl i gael ei llawdriniaeth yr wythnos nesaf. Gweddïwn y bydd y driniaeth yn mynd yn rhwydd iddi ac y caiff adferiad buan. Anfonwn ein cofion hefyd at Iorwen Roberts, Doreen Evans a Heather Jones (Llansannan) – y tair wedi cael gofal am yr eildro yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n dda cael adrodd fod Doreen Evans a Heather Jones bellach wedi dod adref, ac mae Iorwen Roberts hefyd yn gobeithio cael dod adre yn y dyddiau nesaf. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i chi a phawb arall sydd heb fod yn eu hwyliau gorau ar hyn o bryd. Hyderwn y byddwch oll yn adnabod gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu.

Llongyfarchiadau i Helen Parry (Peniel) ar gyrraedd carreg filltir arbennig! Diolchwn i Dduw amdanoch, gan hyderu y byddwch yn parhau i gael nerth ac iechyd.

## Coleg y Bala

- **CLWB HYDREF (i blant 8 – 11 oed)** yng Ngholeg y Bala, dydd Mawrth a dydd Mercher, 26-27 Hydref. Deuddydd yn llawn gemau, crefft, chwaraeon, sinema, storïau am Iesu, a llawer iawn mwy! Y gost yw £40 (neu £20 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu), ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. (Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig **£10 o ostyngiad i bob unigolyn.)** Mae'r llefydd yn gyfyngedig i 30 o achos rheolau'r llywodraeth, felly archebwch le i'ch plentyn mor fuan â phosib gan fod y llefydd sydd ar ôl yn brin: https://forms.gle/WhMujrpiDWSP7toK7.
- **CWRS IEUENCTID (11-14 oed)** yng Ngholeg y Bala**,** 29-31 Hydref (penwythnos olaf hanner tymor). Penwythnos o weithgareddau, chwaraeon ar y 3G, crefft, *take away*, storiau o'r Beibl, a thrip i *Tree Top Trampolines*. Mae'r llefydd yn gyfyngedig i 30 o achos rheolau'r llywodraeth, felly, y cyntaf i'r felin amdani. Y gost yw £63 (neu £31.50 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Archebwch le mor fuan â phosib https://forms.gle/k7c9mUxkHHqBWStq7. (Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig **£10 o ostyngiad i bob unigolyn.)**

## Manylion Cyswllt

Rhodri – (*Ar gyfnod Sabothol rhwng Hydref 1af – Tachwedd 12fed*)
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📱 07900 627536
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (27ain), os gwelwch yn dda.*

# Llais Bro Aled

**Dydd Sul, 17 Hydref 2021**

*eglwysibroaled.com* *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Mae yna rywbeth am ruthr ein cymdeithas gyfoes ni sy'n gwneud straen yn brofiad cyffredin iawn. Rydyn ni i gyd yn profi'r wasgfa yma o bryd i'w gilydd – o blant ysgol a myfyrwyr sy'n wynebu arholiadau, i bobl hŷn sy'n cael eu llethu gan bwysau gwaith neu gymhlethdodau bywyd.

Beth mae'r Beibl yn ei ddweud ydy fod Duw yna i'n cysuro a'n helpu bob amser. Mae Dafydd yn dweud fel hyn yn un o'i Salmau: *"Disgwyl di'n dawel am Dduw, fy enaid, achos fe ydy dy obaith di. Fe ydy'r graig lle dw i'n ddiogel; lle i mi gysgodi sy'n hollol saff. Mae Duw'n edrych ar ôl fy lles i, ac mae'n rhoi nerth i mi." (Salm 62:5-7)*

Mae bywyd yn gallu bod yn anodd, ac mae amgylchiadau yn pwyso'n drwm o bryd i'w gilydd. Mae un peth ar ôl y llall yn pentyrru ac yn achosi tensiynau sy'n bygwth ein torri ni. Un ymateb cyffredin ydy cwyno a gweld bai ar eraill. Yn aml rydyn ni'n meddwl fod rhaid i ni jest brwydro yn ein blaenau. Ond pan mae straen bywyd yn ormod, mae'r Beibl yn ein gwahodd i droi at Dduw. Dywedodd Iesu, *"Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof fi orffwys i chi" (Mathew 11:28).*

Wrth wynebu'r groes, roedd Iesu dan bwysau – straen y gwnawn ni byth ddod yn agos at ei brofi: *"…dechreuodd deimlo tristwch ofnadwy a gwewyr meddwl oedd yn ei lethu" (Mathew 26:37).*

Yn wir, mae Luc yn dweud wrthon ni ei fod wedi dechrau chwysu gwaed, cymaint oedd ei boen meddwl. Felly, ynddo'i hun, dydy profi straen ddim yn bechod nac yn dangos diffyg ffydd – mae'n un o brofiadau cyffredin bywyd. Beth sy'n cyfrif ydy ein hymateb ni. Gwahoddiad y Beibl ydy ar i ni droi at Dduw am help. *"Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddïwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen" (Philipiaid 4:6)*

Gweddi ydy'r ymateb sy'n ein hatgoffa ble mae'n hunig obaith ni; ac mae rhannu'r baich drwy weddïo gydag eraill yn dangos nad ydy Duw am i ni droedio'r llwybrau garw yma ar ein pennau'n hunain.

Duw ydy'n "craig" ni, ac wrth i ni droi ato fo, gallwn brofi cryfder all ein cynnal drwy drafferthion mwyaf bywyd. Pan fyddwn ni'n teimlo ein bod ar ben ein tennyn, mae gwybod fod Duw yn teyrnasu yn ein hatgoffa nad oes disgwyl i ni gario unrhyw faich ar ein pennau ein hunain.

*"Rho dy feichiau trwm i'r Arglwydd; bydd e'n edrych ar dy ôl di" (Salm 55:22)*

*Arfon Jones* (gyda diolch am ei ganiatâd)

# Cyhoeddiadau'r Fro

*Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.*

## Y Fro

| | |
|---|---|
| Sul yma – Hydref 17eg | ➢ **Sgwrs a Gweddi** yng Nghefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. |
| Nos Lun, Hydref 18fed (a Dydd Gwener, Hydref 22ain) | ➢ **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – y trydydd sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (*Manylion mewngofnodi:* https://us02web.zoom.us/j/83243383071 *neu deialwch* 0208 080 6592 *i ymuno ar y ffôn. Meeting ID:* 832 4338 3071) |
| Sul nesaf – Hydref 24ain | ➢ **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. |
| Sul canlynol – Hydref 31ain | ➢ **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Cefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb. |

## Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

| | |
|---|---|
| Sul yma – Hydref 17eg | ➢ **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yn Llanfair am 11:00** o dan arweiniad Mr Steffan Job. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan. |
| Nos Lun, Hydref 18fed | ➢ **Ysgol Sul yn Festri Cefn Meiriadog am 7:00.** Croeso cynnes i aelodau newydd ddod i fyfyrio ar y Gair ac i fwynhau cymdeithas. |
| Sul nesaf – Hydref 24ain | ➢ **Oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. |
| Nos Lun, Hydref 25ain | ➢ **Ysgol Sul yn Festri Cefn Meiriadog am 7:00.** |
| Sul canlynol – Hydref 31ain | ➢ **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn LLANSANNAN am 10:30** (*sylwch ar y newid lleoliad*) o dan arweiniad Mr Alun Jones. |

## Peniel, Saron a Nantglyn

| | |
|---|---|
| Sul yma – Hydref 17eg | ➢ **Oedfa yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd. *(Ni fydd angen rhoi enwau ar gyfer yr oedfa o hyn ymlaen.)* |
| Sul nesaf – Hydref 24ain | ➢ Cyfle i wylio ffilm o **Wasanaeth Diolchgarwch Plant Ysgol Plant Pantpastynog yn Saron am 10:00.** |
| | ➢ **Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nantglyn am 2:00.** |
| Sul canlynol – Hydref 31ain | ➢ **Oedfa yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Celfyn Williams. |

## Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

| | |
|---|---|
| Sul yma – Hydref 17eg | ➢ **Ysgol Sul yn Llannefydd am 9:30.** |
| | ➢ **Oedfa i'r Daith (Henllan, Groes, Llannefydd a Chefn Berain) yn Henllan am 10:30** o dan arweiniad Mr Gwydion Lewis. *Enwau i Rhian (813870 / rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (816231 / alysowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.* |
| Sul nesaf – Hydref 24ain | ➢ **Oedfa yn Groes am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 11:00** o dan arweiniad Mr Alun Jones. *Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn Hydref 22ain, os gwelwch yn dda.* |
| | ➢ **Ysgol Sul y plant yn Henllan am 11:00.** |
| Sul canlynol – Hydref 31ain | ➢ **Oedfa yn Llannefydd am 9:30 ac yn Henllan am 11:00** yng nghwmni'r Parch. John Pritchard. Ar gyfer yr oedfa yn Llannefydd, rhowch eich enw i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, ac ar gyfer yr oedfa yn Henllan, enwau i Rhian (rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (alysowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda. |

## Dydd Gweddi'r Byd 2022

Mae Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2022 wedi cael ei baratoi gan Chwiorydd Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a'r thema fydd 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer'.

Cynhelir **Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd** (ar ZOOM) **dydd Mercher, Tachwedd 24ain** o 10.00 – 12.00. Os ydych am ymuno yn y Gynhadledd, gofynnir i chi gysylltu â Margaret Morgan (margaretmaudmorgan@gmail.com) rhwng Tachwedd 1af ac 17eg. Bydd hynny'n ei galluogi i anfon y ddolen i chi gysylltu ar ZOOM cyn y Gynhadledd.

Mae'n fwriad gennym ninnau gynnal Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn ein heglwysi dechrau Mawrth 2022. **Os oes unrhyw eglwys heb dderbyn y pecyn blynyddol er mwyn i chi allu archebu'r taflenni ar gyfer y gwasanaeth yn eich eglwys**, plîs cysylltwch â Mair. Eleni eto, anfonir pob archeb drwy'r post yn ddi-dâl.